Myfyriwr/aig Lleoli Gwyddoniaeth Mewn Diwydiant

2023 - 2024

Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn ymroddedig i waith ymchwil a chadwraeth o fio-amrywiaeth, cynaliadwyedd, dysgu gydol oes a mwynhad ymwelwyr. Gosodwyd yr Ardd yng nghefn gwlad brydferth Sir Gaerfyrddin gyda gerddi ffurfiol ynghyd a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Waun Las sy'n 440 erw, a reolir yn fferm organig. Mae ein canolfan wyddonol yn edrych dros yr Ardd Fotaneg ac yn cynnwys labordy molecwlar cyflawn, llyfrgell a llysieufa.

Beth sydd ynghlwm a'r gwaith?

Yn ystod y gosodiad yn yr Adran Wyddoniaeth, byddwch yn gweithio i gyfrannu i'n nodau ymchwil. Fydd eich prif gyfrifoldebau yn cynnwys:

- Ymgymryd â phrosiect ymchwil (tua 50% o'ch amser) sydd yn cyfrannu at ein hymchwil cyfredol, gan gynnwys geneteg cadwraeth planhigion prin Gymru, a digido sbesimenau llysieufa.

- **Casglu hadau**
  Byddwch yn gweithio i gasglu, trefnu a glanhau casgliadau hadau i ddatblygu'r Banc Hadau Cenedlaethol Cymru.

- **Ymgysylltu â'r cyhoedd**
  Fe gewch chi gyfle i ddatblygu'ch sgiliau cyfathrebu ac addysgu trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau mewnol ac allanol sy'n hybu ymchwil yr adran, a rhoi sgyrsiau i grwpiau sy'n ymweld â'r Ardd.

Mae un leoliad ar gael i fyfyrwyr cofrestredig mewn prifysgol yn y DU. Mae yna ysgoloriaeth o £3,000 am y flwyddyn. Efallai bydd llety wrth yr Ardd ar gael, ond bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn. Disgwylir i'r lleoliad ddechrau yn Gorffennaf/Awst 2024 a phara am 12 mis.

Am fwy o wybodaeth: Cysylltwch ag Laura Jones trwy e-bost (laura.jones@gardenofwales.org.uk). Gallwch hefyd ymweld â'n gwefan botanicgarden.wales.

Dylwch ddanfon ceisiadau mewn ffurf llythyr a CV sy'n dangos yn glir sut ydych chi'n cwrdd â'r meini prawf isod i laura.jones@gardenofwales.org.uk erbyn 5yp ar 12fed Chwefror 2024. Byddwn hefyd yn gofyn am fanylion cyswllt llawn DAU ganolwr sydd yn fodlon darparu geirda am eich cais. Bydd dewis o blith yr ymgeiswyr yn gystadleuol, a bydd gwahoddiadau i gyfweliad yn gyfyngedig.

Bydd rhestr fer yn cael ei lunio yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn 12fed o Chwefror gyda chyfweliadau yn cael eu trefnu yn fuan ar ol hyn. Bydd cyfweliadau yn cael eu cynnal dros Zoom.

Manyldeb Person

- Gweler isod y meini prawf a ystyrir yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r rôl.
- Mae'r wybodaeth hyn ar gael yn agored i ymgeiswyr ac fe fydd yn sail i'r broses recriwtio a dethol.
- Dim ond yr ymgeiswyr hynny sy'n diwallu'r meini prawf fydd yn cael eu hystyried.

Y meini prawf a'r dystiolaeth ddisgwyliedig:

Addysg/Cymwysterau Gwybodaeth/Profiad Cymhwysedd/Gallu	Ffurflen gais	Cyfweliad
Meini prawf hanfodol		
Myfyriwr/wraig mewn prifysgol yn y DU	✓	
Marciau arholiad a pherfformiad academig (a gyflawnwyd hyd yma ac a ragwelir)	✓	
Tystiolaeth o'ch cymhwyster, diddordeb, a gallu i gynnal gwaith ymchwil ac ymrwymiad y cyhoedd ym maes cadwraeth gwyddor, gan gynnwys (ond heb gael ei gyfyngu i): **a.** Dangos potensial academig **b.** Sgiliau ymarferol da mewn bywydeg maes, neu dystiolaeth o'r gallu i ddatblygu'r rhain **c.** Gallu clir TG, dadansoddol, datrys problemau a rhesymoli **d.** Y gallu i weithio'n effeithiol, yn annibynnol ac fel rhan o dîm **e.** Brwdfrydedd, menter personol, hunan-gymhelliad a rheolaeth dda o amser	✓	✓
Tystiolaeth o brofiad gwaith (yn unrhyw ardal, yn daladwy neu wirfoddol) sydd yn arddangos dealltwriaeth o'r byd gwaith a'r sgiliau bywyd sydd angen.	✓	✓
Nwyd ac ymrwymiad i helpu datblygu'r genhadaeth yr Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.	✓	✓
Dealltwriaeth o Iechyd a Diogelwch, ac arferion a gweithdrefnau Amgylcheddol i hwyluso amgylchedd gwaith diogel.	✓	✓